**Siarter Llywodraethiant ar gyfer Prifysgolion yng Nghymru**

Mae'r ddogfen hon yn 'Siarter' sy'n gosod allan dull o wella llywodraethiant a fydd yn cael ei fabwysiadu gan yr holl brifysgolion yng Nghymru. Cytunwyd ar y ddogfen hon gan yr holl Gadeiryddion a'r Is-Gangellorion, ac mae'n dangos eu hymrwymiad i ddatblygiad a gwelliant parhaus o ran llywodraethiant yn eu prifysgolion eu hunain a'r sector yng Nghymru yn ei gyfanrwydd. Nid Cod Llywodraethiant mo hwn - bydd prifysgolion yng Nghymru yn parhau i gadw at y Cod Llywodraethiant a luniwyd gan Bwyllgor Cadeiryddion y Prifysgolion (PCP). Yn hytrach, mae'n gyfres o ymrwymiadau i gymryd camau i wella llywodraethiant ac i fabwysiadu arfer gorau o'r tu mewn i'r sector a'r tu allan iddo; mae hefyd yn ymrwymo'r sefydliadau i adrodd yn ôl ar y cynnydd a wnaed.

Mae prifysgolion Cymru'n chwarae rhan hanfodol yn genedlaethol, yn rhyngwladol ac yn eu cymunedau lleol. Maent yn gwneud cyfraniad hanfodol i economi Cymru, ac fel sefydliadau maent yn angor allweddol ar gyfer dinasoedd a threfi ledled y wlad.

Yn erbyn y cefndir hwn mae'n hanfodol bod y prifysgolion eu hunain yn gynaliadwy yn y tymor hir a bod ganddynt systemau llywodraethiant a fydd yn sicrhau eu parhad hir-dymor.

Mae'r prifysgolion yng Nghymru yn cydnabod y bu methiannau o ran llywodraethiant yn ddiweddar. Er bod camau wedi'u cymryd ar lefel sefydliadol i fynd i'r afael â'r materion hyn, mae'r sector ar y cyd yn cydnabod yr angen i gymryd camau cadarn a chyson i sicrhau bod y safonau llywodraethiant sy'n cael eu mabwysiadu'n cynrychioli'r arfer gorau posibl.

Rhwng Gorffennaf a Rhagfyr 2019, comisiynwyd adolygiad llawn o lywodraethiant ym mhrifysgolion Cymru. Mae'r Adroddiad a manylion y Grŵp Adolygu i'w gweld yma. Ni fwriadwyd i hwn fod yn adolygiad o lywodraethiant ar gyfer pob sefydliad unigol, ond yn hytrach casgliad o fyfyrdodau a'r gwersi a ddysgwyd gan aelodau cyrff llywodraethu unigol, gan gynnwys cadeiryddion, is-gangellorion, aelodau sy'n fyfyrwyr a staff, clercod ac ysgrifenyddion, ynghyd â chyfraniadau gan Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru (UCM Cymru), yr undebau llafur a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC). Yn ogystal, rhoddodd yr adolygiad sylw i ddatblygiadau mewn llywodraethiant sy'n dod i'r amlwg ar draws amrywiaeth o sectorau, gan ystyried sut y byddent yn berthnasol i'r sector prifysgolion yn ei gyfanrwydd.

Ar ôl ystyried y gwahanol fewnbynnau hyn, cyflwynwyd Adroddiad terfynol i'r Grŵp Adolygu, a amlinellodd ffordd ymlaen o ran llywodraethiant a oedd wedi eu clystyru o amglych cyfres o werthoedd llywodraethiant. Y gwerthoedd llywodraethiant yw:

**Ymddiriedaeth** - Mae yna benderfyniad i adfer hyder; serch hynny er mwyn dechrau adennill yr hyder hwnnw, mae angen cydnabod i’r randdeiliaid nad yw llywodraethiant wedi cyrraedd y nod mewn rhai amgylchiadau o fewn y sector yng Nghymru.

**Atebolrwydd -** Yn yr un modd â sectorau eraill, mae angen i brifysgolion yng Nghymru wneud mwy i gydnabod eu hatebolrwydd i set eang o randdeiliaid gan gynnwys myfyrwyr a gweithwyr. Mae'n bwysig eu bod yn cyfleu eu cyfraniad cymdeithasol yn fwy effeithiol. Mae angen i'r corff llywodraethu ddarparu arweinyddiaeth o ran pwrpas y sefydliad, ei ddiwylliant a'i werthoedd. Mae angen dangos yr aliniad hwn i randdeiliaid allweddol.

**Gonestrwydd -** Mae angen i gyrff llywodraethu a'u haelodau greu diwylliant o onestrwydd, lle gwelir bod arweinwyr yn gweithredu i'r safonau personol uchaf. Dylid rhoi arweiniad i unigolion ynghylch beth yw ymddygiad priodol a’r hyn nad yw’n dderbyniol. Dylai unigolion o fewn y sefydliad deimlo bod ganddynt y grym i godi llais a gweithredu pan nad yw'r arweinyddiaeth a'r sefydliad yn ei gyfanrwydd yn cyrraedd y nod.

**Tryloywder -** Bydd prifysgolion yng Nghymru yn gweithio'n galed i sicrhau bod llawer mwy o dryloywder yn bodoli o ran llywodraethiant. Mae angen i bawb mewn prifysgol fodern feddu ar ddealltwriaeth glir o waith y corff llywodraethu, ac yn yr un modd mae'n rhaid i'r corff llywodraethu hwnnw werthfawrogi’r diwylliant a'r hinsawdd yng ngweddill y sefydliad.

**Ymgysylltiad -** Mae'r rhaid i'r corff llywodraethu sicrhau bod ymgysylltiad digonol â'r holl grwpiau a phartneriaid allweddol wrth ddatblygu strategaeth y brifysgol, yn ogystal â chlywed gan y grwpiau hynny am yr effeithiau cadarnhaol a negyddol sy'n deillio o'r strategaethau hynny.

**Her -** Rhaid i'r corff llywodraethu ei hun sicrhau her gadarn ac adeiladol, yn enwedig gan yr aelodau annibynnol lleyg. Rhaid i'r adran weithredol sicrhau bod ansawdd y wybodaeth a roddir gerbron y corff llywodraethu yn gwahodd ac yn annog her o'r fath, a rhaid i’r cadeirydd sicrhau bod y corff llywodraethu yn ymgysylltu â'r strategaethau a'r risgiau mewn modd priodol.

**Cymhwysedd -** Mae bod yn aelod o gorff llywodraethu'n golygu cyfrifoldebau sylweddol ac mae prifysgolion yn sefydliadau cymhleth. Mae'n hanfodol bod y sector yn cydnabod ei gyfrifoldeb i sicrhau bod aelodau ei gyrff llywodraethu ac aelodau'r adran weithredol yn deall eu cyfrifoldebau yn llawn ac yn barod i gyflawni'r cyfrifoldebau hynny.

Mae'r Adroddiad yn cynnwys 21 o argymhellion i'r sector, ynghyd â chyngor ac arweiniad a gasglwyd o sectorau eraill a gwaith academaidd ar lywodraethiant.

Yn y bon, dylai'r corff llywodraethu ym mhob sefydliad:

- Fod â dealltwriaeth glir o ddiwylliant y sefydliad a'i aliniad â gweledigaeth a gwerthoedd y brifysgol.

- Bod â mecanweithiau clir ar waith i sicrhau bod lleisiau myfyrwyr a staff yn cael eu clywed.

- Sicrhau bod rhanddeiliaid, gan gynnwys staff, myfyrwyr a phartneriaid strategol, yn gallu ymgysylltu â strategaethau allweddol y brifysgol a chyfrannu atynt.

- Sicrhau cynnydd sylweddol o ran y tryloywder sy'n ymwneud â llywodraethiant, gan sicrhau y cedwir at godau llywodraethiant a'r ymrwymiadau yn y Siarter hon a bod cydymffurfiad yn cael ei adrodd arno.

- Sicrhau bod her a thrafodaeth yn cael eu hannog ar draws y sefydliad, ac o fewn y corff llywodraethu.

- Sicrhau bod gwybodaeth, meincnodi a chanllawiau perthnasol ar gael i sicrhau y gall y corff llywodraethu ddarparu her werthfawr, effeithiol a phenodol.

- Gweithio gyda CCAUC i sicrhau bod prifysgolion yn mabwysiadu ffordd o ddeall risg sefydliadol yn gyffredinol, yn y tymor byr a'r tymor hwy.

- Sicrhau bod yr hyfforddiant a datblygiad sydd ar gael i lywodraethwyr ac aelodau gweithredol yn galluogi holl aelodau'r corff llywodraethu i wneud cyfraniad llawn.

Yn unol â chanfyddiadau mwyaf yr Adolygiad, mae'r Siarter hon yn ymrwymiad i ddatblygu rhaglen newid o amgylch llywodraethiant, gan gynnwys camau penodol ar draws y sector wrth symud ymlaen. Ynghlwm â’r ddogfen hon mae'r camau penodol y mae arweinyddiaeth pob prifysgol yn ymrwymo i'w cymryd yn y tymor byr i ganolig. Dylai'r Siarter hon bob amser gael ei dehongli yng nghyd-destun yr Adroddiad, a dylid ei hystyried yn ddogfen fyw a fydd yn seiliedig ar adolygiadau llywodraethiant mewn sefydliadau unigol ac ar draws y sector.

Er mwyn gwella llywodraethiant, bydd angen rhaglen newid barhaus a thymor hwy ar lefel sefydliadol a sector yn unol â'r gwerthoedd llywodraethiant a ddisgrifir yn y Siarter hon.

Bydd pob prifysgol yng Nghymru yn darparu diweddariad ar eu cynnydd yn eu hadroddiadau blynyddol, gan ddechrau yn hydref 2020. Bydd CCAUC hefyd yn darparu diweddariadau rheolaidd ynghylch y gwaith y maent yn arwain arno a bydd hefyd yn cynhyrchu adroddiad yn cynnwys sylwadau ar y cynnydd a wnaed yn erbyn yr ymrwymiadau ar draws holl brifysgolion Cymru.